UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg yn 2024

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

ebost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 21 Tachwedd 2023 i:

Helen Scaife
Cangen Datblygu'r Gweithlu Ôl-16
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ymgynghoriadCGA2024@llyw.cymru

## Rhannwch eich barn â ni

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y bydd yn rhaid i Athrawon Addysg Bellach feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 5 o leiaf i allu gweithio yn y sector?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Buaswn yn derbyn fod yn rhaid i athrawon addysg bellach feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 5 o leiaf yn y rhan fwyaf o achosion, ond tybed a oes angen cymhwyster o'r fath ar gyfer pynciau mwy ymarferol eu natur? A oes ymchwiliad wedi ei wneud i ystyried effaith gofyniad o'r fath ar y gweithlu presennol? Faint o'r gweithlu presennol nad oes ganddynt gymhwyster Lefel 5? Buaswn wedi gwerthfawrogi data o'r fath.**
**Mae angen sicrhau safon uchel o ran proffesiynoldeb ond ai trwy fynnu cymhwyster Lefel 5 y mae sicrhau hynny?**

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 5 (ac uwch) sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ar draws y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)? Os ydych o'r farn y dylid hepgor unrhyw gymwysterau neu fod angen ychwanegu unrhyw gymwysterau, rhestrwch y rhain yn y blwch sylwadau ategol ac eglurwch pam.

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Ceir rhestr faith a manwl o'r cymwysterau presennol a fyddai'n cael eu derbyn. Croesewir y ffaith y bydd y rhestr yn cael ei diweddaru'n flynyddol, gan fod cyrsiau'n newid yn aml.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ychwanegu categori cofrestru ar gyfer ymarferwyr addysg oedolion sy'n gweithio yn y gymuned?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **A fyddai gofyniad o'r fath yn peri bod rhai pobl brofiadol a llwyddiannus yn eu swyddi yn rhoi'r gorau i'w rolau oherwydd a) cost cofrestru b) natur fiwrocrataidd cofrestru? Ymddengys fod nifer o'r sawl sy'n ymarferwyr addysg oedolion yn y gymuned yn gweithio ychydig o oriau yn unig.** |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o ymarferwyr addysg oedolion sy'n gweithio yn y gymuned sydd wedi'i gynnwys yn y deddfwriaethau?

**Diffiniad:**

Ymarferydd dysgu oedolion - Person sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr dysgu oedolion cymunedol

Darparwr dysgu oedolion cymunedol - darparwr (heblaw ysgol, sefydliad addysg bellach neu sefydliad addysg uwch) addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion sy'n seiliedig yn y gymuned ac sydd wedi ei ariannu neu ei ddarparu fel arall gan awdurdod lleol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil neu Weinidogion Cymru.

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi’n cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ymarferwyr addysg oedolion sy’n gweithio yn y gymuned feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 3 o leiaf?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **A fydd y gofyniad hwn yn golygu na fydd bobl brofiadol ond heb gymhwyster yn methu â chynnig dosbarthiadau yn y gymuned?** |

**Cwestiwn 6** – Ydych chi’n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 3 (ac uwch) sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ar draws y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)? Os ydych o’r farn y dylid hepgor unrhyw gymwysterau neu fod angen ychwanegu unrhyw gymwysterau, rhestrwch y rhain yn y blwch sylwadau ategol ac eglurwch pam.

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7** – Ydych chi’n cytuno â'r gofyniad arfaethedig i bob uwch arweinydd a phennaeth mewn Sefydliadau Addysg Bellach gael eu cofrestru?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae pob arweinydd a phennaeth ysgol yn gorfod cofrestru, felly teimlwn y dylai’r un peth fod yn wir am arweinyddion sefydliadau Addysg Bellach.** |

**Cwestiwn 8** – Ydych chi’n cytuno â'r cynnig na ddylai fod yn ofynnol i wirfoddolwyr neu'r rhai sy'n darparu hyfforddiant mewn perthynas â phroffesiwn ar sail dros dro neu achlysurol ar gyfer Sefydliad Addysg Bellach gofrestru gyda'r Cyngor?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9** – Ydych chi’n cytuno â'r strwythur ffioedd ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **A fyddai hi’n syniad cael graddfa ffioedd, fel bod rhai sy’n dysgu rhan amser yn talu llai na’r sawl sy’n gweithio llawn amser. A yw hi’n deg fod y ffi yr un fath i bawb, waeth faint o gyflog y maent yn ei ennill?** |

**Cwestiwn 10** – Ydych chi’n credu bod yna newidiadau eraill i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â’r newidiadau arfaethedig i’r categorïau a’r gofynion cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg y dylid eu hystyried?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol categorïau cofrestru

newydd Cyngor y Gweithlu Addysg ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **A yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd i effeithio'n negyddol ar diwtoriaid Cymraeg fel ail iaith? A yw'r gofynion a nodir uchod yn mynd i arwain at brinder tiwtoriaid? Os felly, fe fydd yr effaith ar y Gymraeg yn negyddol.** |

**Cwestiwn 12** – Yn eich barn chi, a allai'r ddeddfwriaeth ar y categorïau cofrestru newydd gael ei llunio neu ei newid er mwyn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 13** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u hystyried yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i wneud hynny:

| |
|---|
| **A fydd y cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru yn golygu bod y capasiti gan y CGA i ymdrin â'r bobl hyn?** |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐